OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2020 Rhif (Cy. )

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffordd yr A465 (Cyfnewidfa Aberdulais i Gyfnewidfa Castell-nedd, Castell-nedd Port Talbot) (Gwaharddiadau a Chyfyngiadau Traffig Dros Dro) 2020

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *9 Hydref 2020* |
| *Yn dod i rym* | *12 Hydref 2020* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer cefnffordd yr A465, wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig a/neu gyfyngu arno ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1), (4) a (7) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**Enwi, Cychwyn a Dehongli**

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A465 (Cyfnewidfa Aberdulais i Gyfnewidfa Castell-nedd, Castell-nedd Port Talbot) (Gwaharddiadau a Chyfyngiadau Traffig Dros Dro) 2020 a daw i rym ar 12 Hydref 2020.

**2.** Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw:

(**1**) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26), ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32), a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2020 No. (W. )

# ROAD TRAFFIC, WALES

## The A465 Trunk Road (Aberdulais Interchange to Neath Interchange, Neath Port Talbot) (Temporary Traffic Prohibitions & Restrictions) Order 2020

| | |
|---|---|
| *Made* | *9 October 2020* |
| *Coming into force* | *12 October 2020* |

The Welsh Ministers, as traffic authority for the A465 trunk road, are satisfied that traffic on specified lengths of the trunk road should be prohibited and/or restricted because of works proposed on or near the road.

The Welsh Ministers, therefore, in exercise of the powers conferred upon them by section 14(1), (4) and (7) of the Road Traffic Regulation Act 1984(**1**), make this Order.

**Title, Commencement and Interpretation**

**1.** The title of this Order is the A465 Trunk Road (Aberdulais Interchange to Neath Interchange, Neath Port Talbot) (Temporary Traffic Prohibitions & Restrictions) Order 2020 and it comes into force on 12 October 2020.

**2.** In this Order—

"exempted vehicle" *("cerbyd esempt")* means:

(**1**) 1984 c.27; section 14 was substituted by the Road Traffic (Temporary Restrictions) Act 1991 (c.26), section 1(1) and Schedule 1. By virtue of S.I. 1999/672, and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c.32), these powers are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

(a) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at y dibenion a ddisgrifir yn adran 87 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**2**); a

(b) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at ddibenion y llynges, y fyddin neu'r llu awyr ac sy'n cael ei yrru gan berson sydd am y tro yn ddarostyngedig i orchmynion aelod o luoedd arfog y Goron, sy'n aelod o'r lluoedd arbennig—

(i) ac sydd wedi ei hyfforddi i yrru ar gyflymderau uchel ac sy'n gweithredu wrth ymateb, neu wrth ymarfer ymateb, i argyfwng diogelwch gwladol; neu

(ii) at ddiben hyfforddi person i yrru cerbydau ar gyflymderau uchel;

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw'r cyfnod hwnnw sy'n dechrau am 20:00 o'r gloch ar 12 Hydref 2020 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr "y gefnffordd" ("*the trunk road*") yw cefnffordd yr A465 Castell-nedd i'r Fenni;

ystyr "lluoedd arbennig" ("*special forces*") yw'r unedau hynny o'r lluoedd arfog y mae Cyfarwyddwr y Lluoedd Arbennig yn gyfrifol am gynnal eu galluoedd neu sydd am y tro yn ddarostyngedig i reolaeth weithredol y Cyfarwyddwr hwnnw.

## Gwaharddiadau a Chyfyngiadau

**3.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn.

**4.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd sy'n 2.9 metr o led neu'n lletach ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn.

**5.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio unrhyw feic pedal ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn.

**6.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd modur yn gyflymach na 30 milltir yr awr ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 3 i'r Gorchymyn hwn.

(**2**) Diwygiwyd adran 87 gan baragraff 55 o Atodlen 1 i Ddeddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 (p. 21), paragraff 42 o Atodlen 4 i Ddeddf Troseddu Cyfundrefnol Difrifol a'r Heddlu 2005 (p. 15), paragraff 29(2) o Atodlen 8 i Ddeddf Troseddu a'r Llysoedd 2013 (p. 22) ac adran 50(4) a (5) o Ddeddf Dadreoleiddio 2015 (p. 20).

(a) any vehicle being used for the purposes described in section 87 of the Road Traffic Regulation Act 1984(**2**); and

(b) any vehicle being used for naval, military or air force purposes and being driven by a person for the time being subject to the orders of a member of the armed forces of the Crown, who is a member of the special forces—

(i) in response, or for practice in responding, to a national security emergency by a person who has been trained in driving at high speeds; or

(ii) for the purpose of training a person in driving vehicles at high speeds;

"special forces" *("lluoedd arbennig")* means those units of the armed forces the maintenance of whose capabilities is the responsibility of the Director of Special Forces or which are for the time being subject to the operational command of that Director;

"the trunk road" *("y gefnffordd"*) means the A465 Neath to Abergavenny trunk road;

"works period" *("cyfnod y gwaith")* means that period commencing at 20:00 hours on 12 October 2020 and ending when the temporary traffic signs are permanently removed.

## Prohibitions and Restrictions

**3.** No person may, during the works period, drive any vehicle on the lengths of the trunk road specified in Schedule 1 to this Order.

**4.** No person may, during the works period, drive any vehicle with a width of or exceeding 2.9 metres on the lengths of the trunk road specified in Schedule 1 to this Order.

**5.** No person may, during the works period, ride any pedal cycle on the lengths of the trunk road specified in Schedule 2 to this Order.

**6.** No person may, during the works period, drive any motor vehicle at a speed exceeding 30 miles per hour on the lengths of the trunk road specified in Schedule 3 to this Order.

(**2**) Section 87 was amended by the Fire and Rescue Services Act 2004 (c.21), Schedule 1, paragraph 55, the Serious Organised Crime and Police Act 2005 (c.15), Schedule 4, paragraph 42, the Crime and Courts Act 2013 (c.22), Schedule 8, paragraph 29(2) and the Deregulation Act 2015 (c.20), section 50(4) and (5).

**7.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd modur yn gyflymach na 50 milltir yr awr ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 3 i'r Gorchymyn hwn.

**Cymhwyso**

**8.**—(1) Ni fydd y gwaharddiadau a'r cyfyngiadau yn erthyglau 3, 4, 5, 6 a 7 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

(2) Nid yw unrhyw derfynau cyflymder a osodir gan y Gorchymyn hwn yn gymwys i gerbyd esempt.

**Atal Dros Dro**

**9.** Mae unrhyw ddarpariaethau statudol sy'n cyfyngu ar gyflymder cerbydau ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 3 i'r Gorchymyn hwn wedi eu hatal dros dro ar yr adegau hynny pan fo'r cyfyngiadau a bennir yn erthyglau 6 a 7 yn weithredol.

**Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn**

**10.** Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 9 Hydref 2020

*Nicci Hunter*
Arweinydd y Tîm Busnes
Llywodraeth Cymru

**7.** No person may, during the works period, drive any motor vehicle at a speed exceeding 50 miles per hour on the lengths of the trunk road specified in Schedule 3 to this Order.

**Application**

**8.**—(1) The prohibitions and restrictions in articles 3, 4, 5, 6 and 7 apply only during such times and to such extent as indicated by traffic signs.

(2) No speed limits imposed by this Order apply to an exempted vehicle.

**Suspension**

**9.** Any statutory provisions restricting the speed of vehicles on the lengths of the trunk road specified in Schedule 3 to this Order are suspended during such times as the restrictions specified in articles 6 and 7 are in operation.

**Duration of this Order**

**10.** The maximum duration of this Order is 18 months.

Signed under authority of the Minister for Economy, Transport and North Wales, one of the Welsh Ministers.

Dated 9 October 2020

*Nicci Hunter*
Business Team Leader
Welsh Government

**ATODLEN 1**
**Gwahardd Cerbydau Dros Dro**

Y darn o gerbytffordd tua'r dwyrain y gefnffordd wrth Gyfnewidfa Aberdulais sy'n ymestyn o drwyniad y ffordd ymadael tua'r dwyrain hyd at drwyniad y ffordd ymuno tua'r dwyrain.

Y darn o gerbytffordd tua'r gorllewin y gefnffordd wrth Gyfnewidfa Aberdulais sy'n ymestyn o drwyniad y ffordd ymadael tua'r gorllewin hyd at drwyniad y ffordd ymuno tua'r gorllewin.

**SCHEDULE 1**
**Temporary Prohibition of Vehicles**

The length of the eastbound carriageway of the trunk road at Aberdulais Interchange that extends from the nosing of the eastbound exit slip road to the nosing of the eastbound entry slip road.

The length of the westbound carriageway of the trunk road at Aberdulais Interchange that extends from the nosing of the westbound exit slip road to the nosing of the westbound entry slip road.

Y darnau o'r ffyrdd ymadael ac ymuno tua'r dwyrain a thua'r gorllewin wrth Gyfnewidfa Aberdulais.

Y darn o gerbytffordd tua'r dwyrain y gefnffordd sy'n ymestyn o'i chyffordd â'r gerbytffordd gylchredol wrth Gyfnewidfa Castell-nedd hyd at drwyniad y ffordd ymuno tua'r dwyrain wrth Gyfnewidfa Aberdulais.

Y darn o gerbytffordd tua'r gorllewin y gefnffordd sy'n ymestyn o drwyniad y ffordd ymadael tua'r gorllewin wrth Gyfnewidfa Aberdulais hyd at ei chyffordd â'r gerbytffordd gylchredol wrth Gyfnewidfa Castell-nedd.

The lengths of the eastbound and westbound exit and entry slip roads at Aberdulais Interchange.

The length of the eastbound carriageway of the trunk road that extends from its junction with the circulatory carrriageway at Neath Interchange to the nosing of the eastbound entry slip road at Aberdulais Interchange.

The length of the westbound carriageway of the trunk road that extends from the nosing of the westbound exit slip road at Aberdulais Interchange to its junction with the circulatory carriageway at Neath Interchange.

**ATODLEN 2**
**Gwahardd Beicwyr Dros Dro**

Y darn o gerbytffordd tua'r dwyrain y gefnffordd wrth Gyfnewidfa Aberdulais sy'n ymestyn o drwyniad y ffordd ymadael tua'r dwyrain hyd at drwyniad y ffordd ymuno tua'r dwyrain.

Y darn o gerbytffordd tua'r gorllewin y gefnffordd wrth Gyfnewidfa Aberdulais sy'n ymestyn o drwyniad y ffordd ymadael tua'r gorllewin hyd at drwyniad y ffordd ymuno tua'r gorllewin.

Y darnau o'r ffyrdd ymadael ac ymuno tua'r dwyrain a thua'r gorllewin wrth Gyfnewidfa Aberdulais.

Y darn o gerbytffordd tua'r dwyrain y gefnffordd sy'n ymestyn o drwyniad y ffordd ymadael tua'r dwyrain wrth Gyfnewidfa Castell-nedd hyd at ei chyffordd â phrif gerbytffordd gylchredol Cylchfan Resolfen, gan gynnwys y ffyrdd ymuno tua'r dwyrain wrth Gyfnewidfeydd Castell-nedd ac Aberdulais.

Y darn o gerbytffordd tua'r gorllewin y gefnffordd sy'n ymestyn o'i chyffordd â cherbytffordd gylchredol Cylchfan Resolfen hyd at drwyniad y ffordd ymuno tua'r gorllewin wrth Gyfnewidfa Castell-nedd gan gynnwys y ffordd ymuno tua'r gorllewin wrth Gyfnewidfa Aberdulais.

**SCHEDULE 2**
**Temporary Prohibition of Cyclists**

The length of the eastbound carriageway of the trunk road at Aberdulais Interchange that extends from the nosing of the eastbound exit slip road to the nosing of the eastbound entry slip road.

The length of the westbound carriageway of the trunk road at Aberdulais Interchange that extends from the nosing of the westbound exit slip road to the nosing of the westbound entry slip road.

The lengths of the eastbound and westbound exit and entry slip roads at Aberdulais Interchange.

The length of the eastbound carriageway of the trunk road that extends from the nosing of the eastbound exit slip road at Neath Interchange to its junction with the main circulatory carriageway of Resolven Roundabout, including the eastbound entry slip roads at Neath and Aberdulais Interchanges.

The length of the westbound carriageway of the trunk road that extends from its junction with the circulatory carriageway of Resolven Roundabout to the nosing of the westbound entry slip road at Neath Interchange including the westbound entry slip road at Aberdulais Interchange.

**ATODLEN 3**
**Terfynau Cyflymder 30 mya neu 50 mya Dros Dro**

Y darn o gerbytffordd tua'r dwyrain y gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 1.5 cilometr i'r gorllewin o drwyniad y ffordd ymadael tua'r dwyrain wrth Gyfnewidfa Aberdulais hyd at bwynt 1.5 cilometr i'r dwyrain o drwyniad y ffordd ymuno tua'r dwyrain wrth y gyfnewidfa honno.

**SCHEDULE 3**
**Temporary 30 mph or 50 mph Speed Limits**

The length of the eastbound carriageway of the trunk road that extends from a point 1.5 kilometres west of the nosing of the eastbound exit slip at Aberdulais Interchange to a point 1.5 kilometres east of the nosing of the eastbound entry slip road at that interchange.

Y darn o gerbytffordd tua'r gorllewin y gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 1.5 cilometr i'r dwyrain o drwyniad y ffordd ymadael tua'r gorllewin wrth Gyfnewidfa Aberdulais hyd at bwynt 1.5 cilometr i'r gorllewin o drwyniad y ffordd ymuno tua'r gorllewin wrth y gyfnewidfa honno.

The length of the westbound carriageway of the trunk road that extends from a point 1.5 kilometres east of the nosing of the westbound exit slip road at Aberdulais Interchange to a point 1.5 kilometres west of the nosing of the westbound entry slip road at that interchange.

**GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A465 (CYFNEWIDFA ABERDULAIS I GYFNEWIDFA CASTELL-NEDD, CASTELL-NEDD PORT TALBOT) (GWAHARDDIADAU A CHYFYNGIADAU TRAFFIG DROS DRO) 2020**

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae angen y Gorchymyn am fod gwaith yn cael ei wneud ar gefnffordd yr A465, neu gerllaw iddi, rhwng Cyfnewidfa Aberdulais a Chyfnewidfa Castell-nedd, Castell-nedd Port Talbot.

Effaith y Gorchymyn yw gwneud y canlynol dros dro:

i. gwahardd pob cerbyd rhag mynd ar y darnau o'r A465 a ddisgrifir yn Atodlen 1 i'r Hysbysiad hwn. Disgwylir y bydd y gwaharddiadau dros dro mewn grym dros nos (20:00 – 06:00 o'r gloch) ond am gyfnodau efallai y bydd angen cau'r darnau o'r gefnffordd a ddisgrifir ym mharagraffau 1 a 2 o Atodlen 1 am 24 awr y dydd. Ni fydd y brif gerbytffordd a'r ffyrdd ymuno ac ymadael wrth Gyfnewidfa Aberdulais ar gau ar yr un pryd. Amlinellir y trefniadau ar gyfer y llwybrau eraill yn yr Atodlen;

ii. gwahardd beicwyr rhag mynd ar y darnau o'r A465 a ddisgrifir yn Atodlen 2 i'r Hysbysiad hwn. Disgrifir y llwybr arall yn yr Atodlen honno;

iii. gosod terfynau cyflymder dros dro o 30 mya neu 50 mya ar y darnau o'r A465 a ddisgrifir yn Atodlen 3 i'r Hysbysiad hwn. Bydd y terfyn cyflymder o 50 mya yn gymwys wrth ddynesu at y gwaith a bydd y terfyn cyflymder o 30 mya mewn grym drwy safle'r gwaith. Bydd y terfynau cyflymder hyn yn parhau mewn grym yn ystod cyfnod para'r gwaith.

Disgwylir y bydd y gwaharddiadau a'r cyfyngiadau dros dro yn dod i rym am 20:00 o'r gloch ar 12 Hydref 2020 ac yn weithredol, fel sy'n ofynnol a phan godir arwyddion yn eu cylch, tan 06:00 o'r gloch ar 12 Rhagfyr 2020 neu hyd nes y caiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol.

Dim ond yn ystod y cyfnod a bennir uchod y disgwylir i'r Gorchymyn fod yn weithredol. Er hynny, bydd yn parhau'n ddilys am gyfnod o 18 mis ar y mwyaf rhag ofn y bydd angen ailamserlennu'r gwaith neu wneud gwaith canlyniadol neu waith arall. Bydd hysbysiad ymlaen llaw am unrhyw newidiadau i'r amseroedd a'r dyddiadau yn cael ei arddangos cyn gwneud unrhyw waith a ailamserlennir.

**THE A465 TRUNK ROAD (ABERDULAIS INTERCHANGE TO NEATH INTERCHANGE, NEATH PORT TABOT) (TEMPORARY TRAFFIC PROHIBITIONS & RESTRICTIONS) ORDER 2020**

The Welsh Ministers have made an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984 which is necessary to undertake works on or near the A465 trunk road between Aberdulais Interchange and Neath Interchange, Neath Port Talbot.

The effect of the Order is to temporarily:

i. prohibit all vehicles from proceeding on the lengths of the A465 described in Schedule 1 to this Notice. The temporary prohibitions are expected to be in force overnight (20:00 – 06:00 hours) but some 24 hour closures may be required on the lengths of the trunk road described in paragraphs 1 and 2 of Schedule 1. The main carriageway and slip road closures at Aberdulais Interchange will not be in force at the same time. The alternative route arrangements are outlined in the Schedule;

ii. prohibit cyclists from proceeding on the lengths of the A465 described in Schedule 2 to this Notice. The alternative route is described therein;

iii. impose temporary 30 mph or 50 mph speed limits on the lengths of the A465 described in Schedule 3 to this Notice. The 50 mph speed limit will apply on the approach to the works and the 30 mph will be in force through the works site. These speed limits will be in force for the duration of the works period.

The temporary prohibitions and restrictions are expected to come into force at 20:00 hours on 12 October 2020 and to operate, as required and when signed, until 06:00 hours on 12 December 2020 or until the temporary traffic signs are permanently removed.

Although the Order is only expected to operate during the period specified above it will remain valid for a maximum period of 18 months, as a contingency, should the work need to be rescheduled or consequential or other work is required. Advance notice of any changes to times and dates will be displayed before any rescheduled work.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru ar https://llyw.cymru/gorchmynion-ffyrdd.

**Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.**

**J SADDLER**
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

**ATODLEN 1**
**Gwahardd Cerbydau Dros Dro**

1. Y darn o gerbytffordd tua'r dwyrain y gefnffordd wrth Gyfnewidfa Aberdulais sy'n ymestyn o drwyniad y ffordd ymadael tua'r dwyrain hyd at drwyniad y ffordd ymuno tua'r dwyrain.

2. Y darn o gerbytffordd tua'r gorllewin y gefnffordd wrth Gyfnewidfa Aberdulais sy'n ymestyn o drwyniad y ffordd ymadael tua'r gorllewin hyd at drwyniad y ffordd ymuno tua'r gorllewin.

**Y Llwybrau Eraill**

Y llwybr arall ar gyfer pob cerbyd sy'n teithio tua'r dwyrain yw ymadael â'r A465 wrth Gyfnewidfa Aberdulais, mynd ar gylchfan yr A4230/A4109 ac ailymuno â'r A465 tua'r dwyrain wrth yr un gyfnewidfa. Dylai traffig sy'n teithio tua'r gorllewin ymadael wrth Gyfnewidfa Aberdulais, mynd ar gylchfannau'r B4434/A4230/A4109 ac ailymuno â'r A465 tua'r gorllewin.

Fel arall, gall cerbydau sydd dros 2.9 metr o led sy'n teithio tua'r dwyrain ymadael â'r A465 wrth Gyfnewidfa Castell-nedd, ymuno â'r A465 tua'r gorllewin hyd at Gyffordd 43 yr M4 (Llandarcy), mynd ar yr M4 tua'r dwyrain hyd at Gyffordd 32 (Coryton), mynd ar yr A470 tua'r gogledd hyd at Gylchfan Cefncoedycymer a mynd ar yr A465 tua'r gorllewin: i'r gwrthwyneb ar gyfer cerbydau llydan sy'n teithio tua'r gorllewin o Gylchfan Resolfen.

3. Y darnau o'r ffyrdd ymadael ac ymuno tua'r dwyrain a thua'r gorllewin wrth Gyfnewidfa Aberdulais.

Y llwybr arall ar gyfer traffig sy'n dymuno ymadael â'r gefnffordd wrth Gyfnewidfa Aberdulais fydd

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at https://gov.wales/road-orders.

**A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.**

**J SADDLER**
Transport
Welsh Government

**SCHEDULE 1**
**Temporary Prohibition of Vehicles**

1. The length of the eastbound carriageway of the trunk road at Aberdulais Interchange that extends from the nosing of the eastbound exit slip road to the nosing of the eastbound entry slip road.

2. The length of the westbound carriageway of the trunk road at Aberdulais Interchange that extends from the nosing of the westbound exit slip road to the nosing of the westbound entry slip road.

**Alternative Routes**

The alternative route for all eastbound vehicles is to exit the A465 at Aberdulais Interchange, proceed on the A4230/A4109 roundabout and rejoin the eastbound A465 at the same interchange. Westbound traffic should exit at Aberdulais Interchange, proceed on the B4434/A4230/A4109 roundabouts and rejoin the westbound A465.

Vehicles over 2.9 metres wide travelling eastbound may, alternatively, wish to exit the A465 at Neath Interchange, join the westbound A465 to the M4 Junction 43 (Llandarcy), proceed on the eastbound M4 to Junction 32 (Coryton), northbound A470 to Cefn Coed Roundabout and westbound A465: vice versa for westbound wide vehicles from Resolven Roundabout.

3. The lengths of the eastbound and westbound exit and entry slip roads at Aberdulais Interchange.

The alternative route for traffic wishing to leave the trunk road at Aberdulais Interchange will be to

parhau ar yr A465 hyd at y gyffordd nesaf a dychwelyd ar y gerbytffordd gyferbyn i ymadael yn y lleoliad a ddymunir.

Dylai traffig sy'n dymuno ymuno â'r gefnffordd ymuno â'r gerbytffordd gyferbyn, parhau hyd at y gyffordd nesaf a dychwelyd tua'r cyfeiriad priodol.

4. Y darn o gerbytffordd tua'r dwyrain y gefnffordd sy'n ymestyn o'i chyffordd â'r gerbytffordd gylchredol wrth Gyfnewidfa Castell-nedd hyd at drwyniad y ffordd ymuno tua'r dwyrain wrth Gyfnewidfa Aberdulais.

5. Y darn o gerbytffordd tua'r gorllewin y gefnffordd sy'n ymestyn o drwyniad y ffordd ymadael tua'r gorllewin wrth Gyfnewidfa Aberdulais hyd at ei chyffordd â'r gerbytffordd gylchredol wrth Gyfnewidfa Castell-nedd.

Y llwybr arall ar gyfer cerbydau sy'n teithio tua'r dwyrain yw mynd ar yr A474 tua'r de i Gastell-nedd (Stockhams Corner), mynd ar ffyrdd diddosbarth a'r B4434 tua'r gogledd-ddwyrain i ymuno â Heol Dulais Fach tua'r gorllewin yna mynd tua'r gogledd i ailymuno â'r A465 tua'r dwyrain wrth Gyfnewidfa Aberdulais: i'r gwrthwyneb ar gyfer cerbydau sy'n teithio tua'r gorllewin.

continue on the A465 to the next junction and return on the opposite carriageway to exit at the desired location.

Traffic wishing to join the trunk road should join the opposite carriageway, continue to the next junction and return in the appropriate direction.

4. The length of the eastbound carriageway of the trunk road that extends from its junction with the circulatory carrriageway at Neath Interchange to the nosing of the eastbound entry slip road at Aberdulais Interchange.

5. The length of the westbound carriageway of the trunk road that extends from the nosing of the westbound exit slip road at Aberdulais Interchange to its junction with the circulatory carriageway at Neath Interchange.

The alternative route for eastbound vehicles is via the southbound A474 to Neath (Stockhams Corner), north-eastbound unclassified roads and B4434 to join the westbound Dulais Fach Road then northbound to rejoin the eastbound A465 at Aberdulais Interchange: vice versa for westbound vehicles.

**ATODLEN 2**
**Gwahardd Beicwyr Dros Dro**

1. Y darn o gerbytffordd tua'r dwyrain y gefnffordd wrth Gyfnewidfa Aberdulais sy'n ymestyn o drwyniad y ffordd ymadael tua'r dwyrain hyd at drwyniad y ffordd ymuno tua'r dwyrain.

2. Y darn o gerbytffordd tua'r gorllewin y gefnffordd wrth Gyfnewidfa Aberdulais sy'n ymestyn o drwyniad y ffordd ymadael tua'r gorllewin hyd at drwyniad y ffordd ymuno tua'r gorllewin.

3. Y darnau o'r ffyrdd ymadael ac ymuno tua'r dwyrain a thua'r gorllewin wrth Gyfnewidfa Aberdulais.

Bydd y llwybrau eraill yr un fath â'r rhai a ddisgrifir yn Atodlen 1.

4. Y darn o gerbytffordd tua'r dwyrain y gefnffordd sy'n ymestyn o drwyniad y ffordd ymadael tua'r dwyrain wrth Gyfnewidfa Castell-nedd hyd at ei chyffordd â phrif gerbytffordd gylchredol Cylchfan Resolfen, gan gynnwys y ffyrdd ymuno tua'r dwyrain wrth Gyfnewidfeydd Castell-nedd ac Aberdulais.

**SCHEDULE 2**
**Temporary Prohibition of Cyclists**

1. The length of the eastbound carriageway of the trunk road at Aberdulais Interchange that extends from the nosing of the eastbound exit slip road to the nosing of the eastbound entry slip road.

2. The length of the westbound carriageway of the trunk road at Aberdulais Interchange that extends from the nosing of the westbound exit slip road to the nosing of the westbound entry slip road.

3. The lengths of the eastbound and westbound exit and entry slip roads at Aberdulais Interchange.

The alternative routes will be the same as those described in Schedule 1.

4. The length of the eastbound carriageway of the trunk road that extends from the nosing of the eastbound exit slip road at Neath Interchange to its junction with the main circulatory carriageway of Resolven Roundabout, including the eastbound entry slip roads at Neath and Aberdulais Interchanges.

5. Y darn o gerbytffordd tua'r gorllewin y gefnffordd sy'n ymestyn o'i chyffordd â cherbytffordd gylchredol Cylchfan Resolfen hyd at drwyniad y ffordd ymuno tua'r gorllewin wrth Gyfnewidfa Castell-nedd gan gynnwys y ffordd ymuno tua'r gorllewin wrth Gyfnewidfa Aberdulais.

Y llwybr arall ar gyfer beicwyr sy'n teithio tua'r dwyrain o Gyfnewidfa Castell-nedd yw mynd ar yr A474 tua'r gogledd a thua'r dwyrain, mynd ar yr A4230 hyd at Gyfnewidfa Aberdulais, mynd ar yr A4109 tua'r dwyrain, mynd ar y B4242 i Ynysygerwn Avenue, parhau tua'r dwyrain hyd at y B4434 ac yna mynd i Gylchfan Resolfen: i'r gwrthwyneb ar gyfer beicwyr sy'n teithio tua'r gorllewin.

**ATODLEN 3**
**Terfynau Cyflymder 30 mya neu 50 mya Dros Dro**

Y darn o gerbytffordd tua'r dwyrain y gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 1.5 cilometr i'r gorllewin o drwyniad y ffordd ymadael tua'r dwyrain wrth Gyfnewidfa Aberdulais hyd at bwynt 1.5 cilometr i'r dwyrain o drwyniad y ffordd ymuno tua'r dwyrain wrth y gyfnewidfa honno.

Y darn o gerbytffordd tua'r gorllewin y gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 1.5 cilometr i'r dwyrain o drwyniad y ffordd ymadael tua'r gorllewin wrth Gyfnewidfa Aberdulais hyd at bwynt 1.5 cilometr i'r gorllewin o drwyniad y ffordd ymuno tua'r gorllewin wrth y gyfnewidfa honno.

5. The length of the westbound carriageway of the trunk road that extends from its junction with the circulatory carriageway of Resolven Roundabout to the nosing of the westbound entry slip road at Neath Interchange including the westbound entry slip road at Aberdulais Interchange.

The alternative route for eastbound cyclists from Neath Interchange is via the northbound and eastbound A474, the A4230 to Aberdulais Interchange, eastbound A4109, the B4242 onto Ynysygerwn Avenue, continue eastbound to the B4434 and then to Resolven Roundabout: vice versa for westbound cyclists.

**SCHEDULE 3**
**Temporary 30 mph or 50 mph Speed Limits**

The length of the eastbound carriageway of the trunk road that extends from a point 1.5 kilometres west of the nosing of the eastbound exit slip at Aberdulais Interchange to a point 1.5 kilometres east of the nosing of the eastbound entry slip road at that interchange.

The length of the westbound carriageway of the trunk road that extends from a point 1.5 kilometres east of the nosing of the westbound exit slip road at Aberdulais Interchange to a point 1.5 kilometres west of the nosing of the westbound entry slip road at that interchange.